
PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION DYDD GWENER, 16 EBRILL 2021

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr: Robert Glyn Daniels, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Wyn Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig L. Siencyn, Gethin Glyn Williams, Dafydd Meurig, Peter Read a Olaf Cai Larsen

SWYDDOGION: Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu), Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) a Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghori Adnoddau Dynol)

HEFYD YN BRESENNOL:

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Annwen Hughes

1. YMDDIHEURIADAU

Apologies were received from Councillor Anwen Hughes and Councillor Simon Glyn

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19-03-21 fel rhai cywir

5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw

am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

6. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD PRIF WEITHREDWR

- a) Cadarnhawyd trefn y diwrnod gyda'r Aelodau.
- b) Gwahoddwyd Ms Siân Goodson o gwmni Goodson Thomas i gyflwyno adborth cryno o berfformiadau'r ddau ymgeisydd yn y Ganolfan Asesu a gynhaliwyd 29/03/21 drwy nodi canlyniadau'r profion seicometreg a chymwyseddau'r ymgeiswyr. Roedd copi o'r adroddiad wedi ei ddsbarthu i'r Aelodau.

Gwahoddwyd Mr Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), i gyflwyno adborth cryno o berfformiadau'r ddau ymgeisydd mewn cyfweiliad proffesiynol a gynhaliwyd 01/04/21 gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol, 3 Aelod Cabinet a Chadeirydd y Fforwm Craffu. Roedd copi o'r adroddiad wedi ei ddsbarthu i'r Aelodau.

- c) Cyfwelwyd dau ymgeisydd ar gyfer y swydd.

Rhoddodd yr ymgeiswyr gyflwyniad ar *"Mae nhw'n dweud bod y 100 diwrnod cyntaf yn bwysig mewn taith unrhyw Arweinydd. Be fydddech chi yn ei wneud yn eich 100 diwrnod cyntaf a pham?"* Ymatebwyd i chwe chwestiwn ffurfiol a ofynnwyd gan y Cadeirydd ynghyd a chwestiynau dilynol gan yr Aelodau.

- ch) Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mr Dafydd Gibbard.

PENDERFYNWYD: Argymell i'r Cyngor Llawn (mewn cyfarfod arbennig a gynhelir 23/04/21), benodi Mr Dafydd Gibbard i'r swydd Prif Weithredwr

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 4.15 y.h.

CADEIRYDD